# PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Council Chamber, County Hall, Ruthin and by Video Conference, Dydd Iau, 18 Mai 2023 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

**Y Cynghorwyr**:

Joan Butterfield (Cadeirydd), Kelly Clewett, Pauline Edwards, Hugh Evans, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Hogg, Terry Mendies, Raj Metri, Peter Scott (Is-Gadeirydd) ac Elfed Williams.
Roedd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Jason McLellan yn bresennol ar gais y Pwyllgor ar gyfer eitem 6 ar y rhaglen.

## HEFYD YN BRESENNOL

**Swyddogion -**
Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi (TW), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, Moderneiddio a Lles (NS), Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd ac Adnoddau Dynol (LJ), Pennaeth Tai a Chymunedau (LG), Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), Rheolwr Busnes, Gwarchod y Cyhoedd (AL), Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygu Economaidd (GR), Rheolwr Strategol Cynllunio a Thai (AL), Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol (GD), Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Gwella Busnes a Moderneiddio (NK), Rheolwr Cyllid Allanol (AS).

Cydlynydd Craffu (RE), Uwch Weinyddwr Pwyllgorau (KJ) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (NH ac SW)

**<u>Llofnodwyr galw i mewn</u>**

**Y Cynghorwyr**:

| | |
|---|---|
| Pauline Edwards | (Aelod Pwyllgor) |
| Hugh Evans | (Aelod Pwyllgor) |
| Huw Hilditch-Roberts | (Aelod Pwyllgor) |
| Merfyn Parry | |
| Mark Young | |

**Arsylwyr:** y Cynghorwyr Karen Edwards, Bobby Feeley, Hugh Irving, Brian Jones, Rhys Thomas, Andrea Tomlin, David Williams a Huw Williams.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones a'r Cynghorydd Rhys Thomas (Aelod Arweiniol a wahoddwyd ar gyfer eitem busnes 7).

Dywedodd y Cydlynydd Craffu wrth y Pwyllgor fod y Grŵp Annibynnol wedi gwneud newidiadau i'w aelodaeth ar y Pwyllgor ers cyhoeddi'r rhaglen a'r adroddiadau ar

gyfer y cyfarfod – roedd y Cynghorwyr Hugh H Evans a Huw Hilditch-Roberts wedi cymryd lle'r Cynghorwyr Bobby Feeley a David Williams fel cynrychiolwyr ar y Pwyllgor.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad oedd yn rhagfarnu.

## 3 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer blwyddyn gyngor 2023/24. Enwebwyd y Cynghorydd Peter Scott gan y Cynghorydd Terry Mendies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Hugh H Evans. Ni chyflwynwyd unrhyw enwebiadau eraill.

Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: Ethol y Cynghorydd Peter Scott yn Is-Gadeirydd Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer blwyddyn gyngor 2023/24.***

Diolchodd y Cynghorydd Peter Scott i aelodau'r Pwyllgor am eu cefnogaeth ac am ymddiried tymor arall yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor iddo.

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni thynnwyd sylw'r Cadeirydd na'r Cydlynydd Craffu at unrhyw faterion brys cyn dechrau'r cyfarfod.

## 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.***

Ni chodwyd unrhyw fater mewn perthynas â chywirdeb na chynnwys y cofnodion.

## 6 ADOLYGU PENDERFYNIAD CABINET SY'N YMWNEUD Â'R CEISIADAU AR Y RHESTR FER AR GYFER CYLLID O'R GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau, Swyddogion a'r Arweinydd, y Cynghorydd Jason McLellan i'r cyfarfod. Cafodd yr Aelodau wybodaeth gefndir a'r rhesymeg y tu ôl i'r cais i alw i mewn.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa am y rhesymau dros alw i mewn fel y nodir yn yr arddodiad.

“Roedd dyraniad o £25.6 miliwn wedi ei wneud i Sir Ddinbych drwy Gronfa Ffyniant y DU. Mae’n rhaid cadw at broses agored a thryloyw ar gyfer dyrannu’r cyllid hwnnw.”

“Diffyg dealltwriaeth o’r broses ymgeisio a llunio rhestr fer. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o fatrics sgorio, ac fe’i disgrifiwyd fel “Celf, nid Gwyddoniaeth”. Dim digon o dystiolaeth ynglŷn â sut y dyfarnwyd a chymeradwywyd prosiectau. Diffyg tystiolaeth yn alinio’r broses gyda chanllawiau Llywodraeth y DU. Dim tystiolaeth o hawl ymgeiswyr i apelio na chasglu gwybodaeth ychwanegol i ategu’r ceisiadau. Diffyg ymgynghori gyda’r holl Aelodau yn y broses.”

Rhoddodd y Cydlynydd Craffu ddisgrifiad manwl i Aelodau o’r drefn galw i mewn.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r holl lofnodwyr oedd yn bresennol i fynegi eu rhesymau dros alw penderfyniad y Cabinet i mewn.

Eglurodd y Llofnodwyr i’r Pwyllgor mai’r rheswm dros Alw i Mewn oedd i ddeall y broses yn llawn ar gyfer ymgeisio, llunio rhestr fer a dyfarnu arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin, nid er mwyn dal y broses yn ôl mewn unrhyw ffordd. Tynnodd y Llofnodwyr sylw at eu siom yn y diffyg cyfathrebu ag Aelodau am y broses ac felly na chafodd Aelodau lawer o gyfle i gyfrannu.

Mynegodd y Llofnodwyr eu pryderon am y matrics a’r system sgorio ac y byddai o fudd cael eglurhad am hyn. Dywedwyd bod Aelodau’n teimlo nad oeddent yn rhan o’r broses a bod llawer o gyfleoedd wedi cael eu methu drwy gydol y broses i gynnwys yr Aelodau. Parhaodd y drafodaeth pan holodd y Llofnodwyr am allu’r prosiectau oedd wedi symud i gam nesaf y broses i gyflawni.

Parhaodd y Llofnodwyr i bwysleisio eu bod yn siomedig â diffyg eglurder y broses a’r diffyg cyfathrebu ag Aelodau. Roeddent wedi llofnodi’r cais am alw i mewn oherwydd nad oeddent yn sicr sut i ateb cwestiynau posibl gan breswylwyr ac ymgeiswyr yn eu wardiau oherwydd y diffyg gwybodaeth oedd ar gael iddynt.

Wrth ymateb i’r pwyntiau a godwyd gan y Llofnodwyr, dywedodd yr Arweinydd ei fod yn deall cymhellion y Llofnodwyr oherwydd dylai Aelodau allu ateb cwestiynau’n hyderus gan breswylwyr ac ymgeiswyr yn eu wardiau.

Eglurodd yr Arweinydd fod y broses wedi cadw at ganllawiau Llywodraeth y DU, oedd wedi eu nodi eisoes. Roedd yr amserlenni ar gyfer y Gronfa’n dynn ac ysgrifennwyd at Arweinwyr Grŵp a Chadeiryddion pob un o Grwpiau Ardal yr Aelodau a gofynnwyd iddynt ddosbarthu’r wybodaeth berthnasol i Aelodau (roedd copi o e-bost, dyddiedig 15 Chwefror 2023 ynghlwm yn Atodlen C yr adroddiad). Cysylltwyd â 48 o sefydliadau i fod yn rhan o’r Gronfa, ac ymatebodd 12 ohonynt. Ymatebodd 1 Aelod Etholedig i brosiect penodol ac ni chafwyd unrhyw ymateb gan Aelodau eraill.

Eglurodd yr Arweinydd y cadwyd at yr holl ganllawiau. Roedd gwybodaeth am y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gael ar y cyfryngau cymdeithasol a gwefan Cyngor Sir

Ddinbych, yn nodi fod y Gronfa yno i gymryd rhan ynddi. Ar ddiwedd y cam ymgeisio, cafwyd gormod o geisiadau, llawer mwy o geisiadau na'r arian oedd ar gael.

Dywedodd y Pennaeth Tai a Chymunedau wrth Aelodau fod y broses ymgeisio wedi ei chyhoeddi ar-lein a bod rhestr fer wedi ei llunio yn dibynnu ar y cyllid oedd ar gael ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU. Roedd ymgeiswyr yn gallu gweld ar wefan CSDd pa gyllid oedd ar gael ar gyfer pob math o brosiect bob blwyddyn. Ystyriwyd gallu pob prosiect i gyflawni yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Buddsoddi'r Cyngor ac wrth ystyried ei gyfraniad at y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - yr Economi a'r Amgylchedd y Matrics sgorio a'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol i Aelodau. Yn ei hanfod, y Matrics oedd y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol oedd y Cyngor wedi cyfrannu ato'n flaenorol ac a gymeradwywyd gan Lywodraeth y DU. Cafodd pob ymgeisydd am y Gronfa Ffyniant Gyffredin eu hasesu ar eu gallu i gyflawni ar ganlyniadau ac allbynnau'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol. Elfen ychwanegol a ystyriwyd oedd y swm penodol o arian a ddyrannwyd i bob thema ar gyfer pob blwyddyn ariannol ac i weithgareddau Refeniw a Chyfalaf. Roedd ar y Grŵp Partneriaeth Craidd angen dynodi prosiectau dan bob thema fyddai'n cyflawni yn erbyn allbynnau a chanlyniadau'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol a dyraniadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Ar ddiwedd y cam cyflwyno, cafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i holi'r Arweinydd a Swyddogion. Hefyd, cafodd aelodau nad oeddent ar y Pwyllgor gyfle i holi cwestiynau a rhoi sylwadau. Wrth ymateb i gwestiynau ac arsylwadau, rhoddwyd cadarnhad:

- y gellid rhannu manylion y ceisiadau a dderbyniwyd yn gyfrinachol â'r holl aelodau. Fodd bynnag, ni fyddai aelodau'n gallu rhannu'r wybodaeth fanwl ddim pellach.
- nad oedd unrhyw arian wedi'i ryddhau i'r ymgeiswyr llwyddiannus hyd yma. Yn dibynnu ar ganlyniad y broses galw i mewn, byddai'r ceisiadau llwyddiannus yn symud i ail gam y broses ddyfarnu, fyddai'n cynnwys cynnal profion diwydrwydd dyladwy mwy manwl ar eu gallu i gyflawni, ar amser ac o fewn y gyllideb.
- bod yn rhaid i bob cais am arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin fod yn brosiectau gwerth £250,000 o leiaf, cydymffurfio â chynnig strategol heb ddyblygu darpariaeth bresennol a chael eu cyflawni o fewn ffiniau daearyddol y sir. Roedd ceisiadau am brosiectau cymunedol llai, â llai o werth yn cael eu gweinyddu gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (ar gyfer Cynyddu Gallu Cymunedol) a Chadwyn Clwyd (ar gyfer Cymorth Busnes).
- roedd ganddynt bob ffydd yn y broses gwneud penderfyniadau a ddilynwyd hyd yma.

- mai Sir Ddinbych oedd yr unig awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru oedd wedi penderfynu mynd â'r broses gwneud penderfyniadau ynglŷn a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin drwy strwythur ddemocrataidd gyhoeddus, drwy'r Cabinet. Mewn awdurdodau eraill, roedd penderfyniadau am y ceisiadau'n cael eu gwneud drwy broses penderfyniad dirprwyedig Aelod Arweiniol.
- bod ffrwd gyllido'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi ei chynllunio gan Lywodraeth y DU ac roedd y broses i'w chefnogi yn amodol ar arweiniad a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU ac nid yr awdurdod lleol
- rhannwyd y rhestr hir o geisiadau a gafwyd â'r Grŵp Budd-ddeiliaid Ehangach ar 2 Mawrth 2023. Roedd yr e-bost a anfonwyd at y Grŵp hwn, oedd yn cynnwys Cadeiryddion pob Grŵp Ardal Aelodau, ar 2 Mawrth (copi ynghlwm yn Atodlen C yr adroddiad) yn gofyn am eu sylwadau ar addasrwydd strategol y ceisiadau a'u gallu i gyflawni
- bod cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ffurfio rhan o nifer o becynnau cyllid a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i ddisodli ffrydiau ariannu blaenorol cyn Brexit oedd ar gael gan yr Undeb Ewropeaidd
- oherwydd yr amserlenni tynn a nodwyd yng nghanllawiau'r Gronfa, ni fyddai wedi bod yn bosibl trafod ceisiadau lleol mewn cyfarfodydd unigol y Grŵp Ardal Aelodau gan nad oedd unrhyw gyfarfodydd wedi'u trefnu yn yr amser a ganiatawyd.

Cyn cloi'r drafodaeth, rhoddwyd cyfle i ddwy ochr y ddadl grynhoi'r rhesymau a'r rhesymeg y tu ôl i'w safbwyntiau a'u penderfyniadau.

**Llofnodwyr:**

Diolchwyd i'r Swyddogion a'r Aelodau am y ddadl ddeallus a gynhaliwyd. Roedd yn braf clywed bod Swyddogion wedi nodi bod gwersi wedi eu dysgu o ran cyfathrebu ac y byddai hyn yn cael ei ddatblygu. Roedd teimladau bod y term 'amserlenni tynn' wedi cael ei ddefnyddio'n rhwydd drwy gydol y ddadl a chyfeiriwyd at y ffaith y gellid yn hawdd fod wedi trefnu cyfarfod ar-lein i Aelodau. Roedd y cyfathrebu â Grwpiau Ardal yr Aelodau yn fregus ac roedd angen ei wella. Rhannwyd gwybodaeth werthfawr yn ystod y ddadl yn ymwneud â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, oedd wedi bod o fudd, fodd bynnag, teimlwyd nad oedd hyn wedi digwydd drwy gydol y broses. Roedd Aelodau nad oeddent yn aelodau o'r Cabinet yn teimlo nad oeddent yn cael eu hymddiried â gwybodaeth gyfrinachol ac roedd angen sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu'n gyfartal â phob Aelod gan fod arnynt angen cyfathrebu â phreswylwyr a chymunedau. Roedd yn bryderus deall y canfyddiad fod partneriaid allanol wedi cael mwy o wybodaeth am y Gronfa nag Aelodau lleol, oedd hefyd wedi cyfrannu at ddiffyg ymgysylltiad Aelodau a'r broses.

**Yr Arweinydd:**

Roedd yr Arweinydd yn cytuno y cafwyd dadl dda a bod gwersi i'w dysgu a'u datblygu o ran cyfathrebu. Yn ystod y drafodaeth, cafodd Aelodau wybodaeth gan Swyddogion am broses gymhleth y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd y broses yn gymhleth ac yn symud yn gyflym oherwydd yr amserlenni a osodwyd. Roedd ymgysylltiad Aelodau o ran y ceisiadau i'r Gronfa wedi bod yn rhan o'r drafodaeth ar y pwnc yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Ionawr 2023 a dosbarthwyd e-bost at Gadeiryddion Grwpiau Ardal yr Aelodau o ganlyniad i hyn. Roedd y broses yn un agored a hygyrch ac roedd y nifer fawr o geisiadau a gafwyd yn dystiolaeth o hynny. Cafodd gwahoddiad ei ddosbarthu i Aelodau i ymgysylltu â'r Grŵp Partneriaeth. Bu llawer o gyfleoedd i Aelodau ymgysylltu â phroses y Gronfa.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Llofnodwyr a'r Arweinydd am grynhoi eu rhesymau a'u rhesymeg.

Ar ddiwedd y crynodebau, cynigiodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y canlynol:

Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet bod ei benderfyniad ar 25 Ebrill yn cael ei gadarnhau, ac wrth wneud hynny, yn cadarnhau bod y Cabinet yn cytuno:

(i) bod gwybodaeth am y casgliadau gwerthuso yn ymwneud â phob cais unigol a dderbyniwyd ar gyfer cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei rannu â'r holl Gynghorwyr Sir ar unwaith;
(ii) bod gwybodaeth yn ymwneud â threfniadau llywodraethu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei rannu â'r holl Gynghorwyr;
(iii) bod pob Grŵp Ardal Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw risgiau a nodwyd yn ymwneud â phrosiectau unigol ac am gynnydd o ran eu gallu i gyflawni wrth symud ymlaen;
(iv) bod y Cynllun Cyfathrebu yn ymwneud â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei rannu â'r holl Gynghorwyr a bod
(v) Yr Arweinydd, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol a Chyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi yn cysylltu ag Aelodau lleol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau dirprwyedig sydd eu hangen, fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Cabinet ar 25 Ebrill 2023.

Cyn gofyn i'r Pwyllgor fwrw pleidlais ar y cynnig uchod, gofynnodd y Cadeirydd i Bennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ac Adnoddau Dynol beth oedd y dewisiadau o ran y penderfyniad oedd wedi ei alw i mewn. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro y gallai'r Pwyllgor, wrth fwrw pleidlais ar yr argymhelliad arfaethedig, ofyn i'r Cabinet:

- ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol ar y sail a nodwyd
- cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol a wnaed gan y Cabinet; neu

- argymell i'r Cabinet i gadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol ond wrth wneud hynny, dylai'r Cabinet archwilio'r agweddau a amlinellir yn yr argymhelliad a gynigiwyd ymhellach.

Croesawodd y Cadeirydd farn Aelodau ar yr uchod ac ar ddiwedd trafodaeth fanwl:

***<u>Penderfynwyd:</u> wedi ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad a'i atodiadau cysylltiedig, ynghyd â'r sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth ar y broses ymgeisio a llunio rhestr fer, bod y Pwyllgor yn <u>argymell</u> i'r Cabinet bod ei benderfyniad ar 25 Ebrill 2023, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r prosiectau sydd ar y rhestr fer a luniwyd gan y Grŵp Partneriaeth Craidd i'w cymeradwyo, yn cael ei gadarnhau, ac wrth wneud hynny, cadarnhau bod y Cabinet yn cytuno:***

***(i) bod gwybodaeth am y casgliadau gwerthuso yn ymwneud â phob cais unigol a dderbyniwyd ar gyfer cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei rannu â'r holl Gynghorwyr Sir ar unwaith;***

***(ii) bod gwybodaeth yn ymwneud â threfniadau llywodraethu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei rannu gyda'r holl gynghorwyr sir;***

***(iii) bod pob Grŵp Ardal Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw risgiau a nodwyd yn ymwneud â phrosiectau unigol ac am gynnydd o ran eu gallu i gyflawni wrth symud ymlaen;***

***(iv) bod y Cynllun Cyfathrebu yn ymwneud â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei rannu â'r holl Gynghorwyr; a bod***

***(v) Yr Arweinydd, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol a Chyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi yn cysylltu ag aelodau lleol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau dirprwyedig sydd eu hangen, fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Cabinet ar 25 Ebrill 2023***

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cyfraniadau at y ddadl ar fater eithriadol o gymhleth.

Ar y pwynt hwn, cymerodd y pwyllgor egwyl.

## 7 LLWYDNI AC ANWEDD MEWN EIDDO YN Y SECTOR RHENTU PREIFAT A STOC DAI'R GYMDEITHAS DAI

Rhoddodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad gefndir byr ar Lwydni ac Anwedd Mewn Eiddo yn y Sector Rhentu Preifat a Stoc Dai'r Gymdeithas Dai. Dechreuodd drwy egluro mai ymdrech tîm cyfan ydoedd, cydweithio agos rhwng llawer o wasanaethau.

Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar reoli llwydni ac anwedd mewn eiddo yr oedd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn berchen arnynt ac yn eu rheoli ac yn y

sector rhentu preifat. Roedd yr adroddiad yn dilyn adroddiad diweddar am yr un mater yn stoc dai'r Cyngor.

Mae dwy brif agwedd i'r adroddiad fel a ganlyn:

1. Rhoi diweddariad ar y sefyllfa yn y Sector Rhentu Preifat.
2. Rhoi diweddariad ar y camau gweithredu positif a gymerwyd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ymdrin â'r sefyllfa gyfredol ac i ymateb iddi.

Eglurwyd bod y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn atebol i'w Byrddau eu hunain ac i Lywodraeth Cymru o ran rheoli safonau eu heiddo eu hunain.

Arweiniodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygu Economaidd yr Aelodau drwy elfennau'r adroddiad oedd yn ymwneud â'r Sector Rhentu Preifat a'r gwaith oedd ar y gweill drwy Dîm Gwarchod y Cyhoedd a Swyddogion Gorfodi Tai y Cyngor. Roedd y ddeddfwriaeth gorfodi tai wedi'i nodi yn Neddf Tai 2004. Roedd unrhyw orfodi a gymerwyd yn digwydd dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Roedd y broses a nodwyd yn y canllawiau yn rhoi amser i landlordiaid weithredu cyn i unrhyw orfodi ddigwydd.

Roedd ffigurau o ran camau gorfodi dros y 4 mlynedd diwethaf (dosbarthwyd ymlaen llaw) wedi gostwng yn raddol ac roedd y Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni a Deddf Rhentu Cartrefi Cymru wedi cyfrannu at hynny o bosibl.

Yn unol â dechrau'r Ddeddf Rhentu Tai (Cymru) 2016 yn gynharach yn 2023, mae'r tîm Gorfodaeth Tai wedi newid y broses archwilio cwynion i sicrhau bod y landlord yn cael gwybod am unrhyw gwynion a wneir gan eu tenantiaid, er mwyn rhoi'r cyfle iddynt fynd i'r afael â'r materion o ddiffyg atgyweirio, cyn i Dîm Gorfodaeth Tai'r Cyngor gael eu cynnwys yn ffurfiol. Os byddai'r broblem yn parhau ar ôl 21 diwrnod, neu os na fyddai cynnydd sylweddol wedi'i wneud, byddai'r tîm Gorfodaeth Tai yn trefnu cynnal archwiliad. Mae'r broses newydd yn berthnasol i bob cwyn a dderbynnir, heblaw am argyfyngau a gaiff eu blaenoriaethu a'u harchwilio cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

Aeth y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygu Economaidd ymlaen i egluro mai ychydig iawn o gwynion a dderbyniwyd o ran Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Pe bai cwynion o'r fath yn cael eu derbyn, byddai'r tîm Gorfodaeth Tai yn cynghori'r tenant yn y lle cyntaf i gysylltu â'u darparwr tai fel bod cyfle gan eu landlord i fynd i'r afael â'u pryderon yn uniongyrchol. Hyd yma, nid oedd unrhyw achosion gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lle'r oedd angen uwchgyfeirio neu gyfranogiad pellach.

Eglurodd y Rheolwr Strategol Cynllunio a Thai ail agwedd yr adroddiad yn ymwneud â'r camau positif a gymerwyd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Roedd dau o'r chwe Landlord Cymdeithasol Cofrestredig lleol wedi rhoi copi o'u hymateb i Lywodraeth Cymru i'r Cyngor i sicrhau'r Pwyllgor eu bod wedi ymateb i'r mater fel landlordiaid cyfrifol. Rhoddwyd crynodeb byr o'u hymateb fel a ganlyn: -

- Caiff pob adroddiad am damprwydd, llwydni ac anwedd eu cofnodi a'u harchwilio, a bydd y llwyth achosion yn cael ei fonitro gan uwch. swyddog gydag adroddiadau i'r uwch dimau arwain a'r byrddau rheoli.
- Roedd prosesau clir ar waith i reoli pob adroddiad gan aelwydydd, er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n digwydd yn ddi-oed.
- Roedd yr aelwydydd a'r eiddo sydd â'r mwyaf o risg wedi'u targedu ar gyfer ymyrraeth a chymorth.
- Roedd pob aelod o staff rheng flaen wedi cael hyfforddiant ac ymwybyddiaeth er mwyn gallu nodi a rhoi gwybod am unrhyw faterion yn ymwneud â llwydni ac anwedd.
- Roedd partneriaethau wedi'u creu ar gyfer rhoi cyngor i aelwydydd ynghylch effeithlonrwydd ynni a chyllid aelwydydd.
- Cafwyd buddsoddiad ac arloesi sylweddol mewn cartrefi i wella mesurau effeithlonrwydd ynni.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am yr adroddiad a gwahoddodd yr Aelodau i ofyn cwestiynau.

Holodd yr Aelodau faint o gefnogaeth oedd tenantiaid mewn cartrefi rhent preifat yn ei gael ac a oedd hyn yn debyg i denantiaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Eglurodd y Swyddogion, os oedd gan denant eiddo rhent preifat broblem, byddent yn cael gwybod i ddweud wrth eu landlord i ddechrau. Os na fyddai'r landlord yn cydymffurfio, dyna pryd y byddai'r tîm Gorfodaeth Tai yn ymyrryd i ymdrin â'r problemau a godwyd. Yn gyffredinol, rhoddwyd yr un amddiffyniad i denantiaid yn nhai y Cyngor, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Sector Rhentu Preifat dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru).

Holodd yr Aelodau am y data yn yr adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) gan nodi cynnydd sylweddol yn nifer yr archwiliadau eiddo a gynhaliwyd ble'r oedd peryglon wedi eu nodi, a chamau gorfodi wedi eu cymryd o 2021/2022- 2022-2023. Dywedodd Swyddogion y gallai nifer o ffactorau fod wedi cyfrannu at hyn, sef dod allan o'r pandemig Covid a hefyd bod problemau gwahanol yn codi mewn tymhorau gwahanol yn y sector tai, er enghraifft, gallai fod wedi bod yn flwyddyn damp a gwlyb, a allai gyfrannu at dderbyn mwy o gwynion.

Holodd Aelodau sut fyddai troi tenantiaid allan heb fai yn effeithio ar y data a gasglwyd. Dywedodd swyddogion fod y tîm yn siarad yn rheolaidd â thenantiaid a landlordiaid i'w hannog i gael gafael ar wybodaeth a chymorth. Nod Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) oedd mynd i'r afael â'r mater a helpu i atal digartrefedd. Nid oedd swyddogion yn gweld hyn yn broblem wrth symud ymlaen. Os byddai tenant yn cael ei droi allan heb fai, sy'n annhebygol, roedd llwybrau cyfreithiol i'w cymryd i gefnogi'r rhai a effeithiwyd.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y pwyslais oedd yn cael ei roi ar inswleiddio cartrefi ac a oedd hyn yn ddefnyddiol wrth ymdrin â llwydni ac anwedd. Dywedodd y swyddogion fod pob eiddo'n wahanol, ond bod angen gwella perfformiad effeithlonrwydd ynni pob eiddo gan y byddai hyn yn ei gwneud yn rhatach i denantiaid eu cynhesu. Roedd rheoli lleithder ac awyru mewn eiddo hefyd yn bwysig i leihau llwydni ac anwedd a chael gwared arnynt.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu hadroddiad.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***<u>Penderfynwyd</u>: yn amodol ar yr arsylwadau uchod a'r sicrwydd a roddwyd***

- ***(i)*** ***cadarnhau bod y Pwyllgor wedi darllen yr adroddiad ac wedi ei ddeall; a***
- ***(ii)*** ***gofyn am i ddarganfyddiadau Llywodraeth Cymru yn dilyn ei adolygiad o ymatebion landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru i ddigwyddiadau o lwydni ac anwedd yn eu stoc dai gael ei ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth pan fydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi.***

## 8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu yr adroddiad a'r atodiadau (dosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn cael ei gynnal ar 6 Gorffennaf 2023. Roedd 3 eitem sylweddol wedi eu rhestru ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar 6 Gorffennaf 2023:

- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Adroddiad Blynyddol Diogelu Oedolion
- Ail bleidlais ar gyfer Ardal Gwelliannau Busnes Posibl y Rhyl - Ail Dymor (gohiriwyd o raglen fusnes y cyfarfod presennol â chaniatâd y Cadeirydd)

Yng nghyfarfod mis Ebrill y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu, gofynnwyd am i adroddiad ar Osod Lefelau Rhent Fforddiadwy ddod gerbron y Pwyllgor Craffu Partneriaethau. Gofynnwyd hefyd am i gynrychiolydd o'r Sector Landlordiaid Preifat gael gwahoddiad i'r cyfarfod. Roedd y Cydlynydd Craffu wedi siarad â'r Rheolwr Strategol Cynllunio a Thai ac roeddent yn gobeithio gallu cyflwyno adroddiad yng nghyfarfod mis Hydref y Pwyllgor.

Atgoffwyd yr Aelodau am y Grwpiau Herio Gwasanaethau (dosbarthwyd gwybodaeth ymlaen llaw) ac oherwydd bod gwasanaethau wedi cael eu hailstrwythuro, roedd 3 grŵp arall oedd angen cynrychiolwyr o'r Pwyllgor sef:-

- Tai a Chymunedau
- Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau
- Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl

Enwebodd y Cynghorydd Martyn Hogg ei hun fel cynrychiolydd y Grŵp Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau ac roedd Aelodau o blaid hynny.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer y Grwpiau Herio Gwasanaethau Tai a Chymunedau a Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl a chytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn chwilio am gynrychiolwyr ar gyfer y grwpiau hyn yn ei gyfarfod nesaf.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***<u>Penderfynwyd</u>:***

***(i) yn amodol ar y newidiadau a'r cynnwys posibl a amlinellir uchod ac yn ystod y cyfarfod, cadarnhau Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor fel y nodir yn Atodiad 1; a***

***(ii) phenodi'r Cynghorydd Martyn Hogg fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar Grŵp Herio Gwasanaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau a gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer cynrychiolwyr y Pwyllgor ar Grwpiau Herio Gwasanaethau Tai a Chymunedau a'r Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.***

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peter Scott at gyfarfod o'r Grŵp Craffu Cyfalaf yr oedd wedi ei fynychu'n ddiweddar fel cynrychiolydd y Pwyllgor. Gan mai dyma gyfarfod cychwynnol y Grŵp, roedd wedi cael trosolwg o'r broses gyfalaf newydd ac wedi cymeradwyo ei gylch gorchwyl yn ffurfiol. Cafodd Aelodau wybodaeth hefyd am y cyllid sydd ar gael ar gyfer y Strategaeth Gyfalaf Tymor Canolig ac ystyriwyd ceisiadau cyfalaf yn ymwneud â Nantclwyd y Dre a Chynllun Grant Cartrefi Gweigion Llywodraeth Cymru. Hefyd, cyflwynwyd gwybodaeth i'r Grŵp am gynlluniau ariannu posibl y byddai disgwyl iddo eu hystyried yn y dyfodol, a'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran prosiectau Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cyfraniadau a'u sylwadau yn ystod y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.25pm